



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Twm o'r Nant  
Ffordd Rhyl  
Dinbych  
LL16 3DP**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae ysgol benodedig Gymraeg Twm o'r Nant yn rhannu campws gyda dwy ysgol arall yn nhref Dinbych. Ar hyn o bryd mae 208 o ddisgyblion o oedran ysgol orfodol yn yr ysgol a 32 disgybl tair a phedair oed. Mae'r rhif hyn yn llai na phan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2005 ond mae'r nifer o ddisgyblion sydd yn rhan isaf yr ysgol yn uwch na'r rhan uchaf. Caiff y disgyblion eu haddysgu gan 10 athro llawn amser a 4 rhan amser mewn 11 dosbarth. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Glan Clwyd ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Lleolir uned iaith a lleferydd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod lleol yn yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn wedi eu hintegreiddio yn rhannol i bob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae saith y cant (7%) o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydiau ysgol am ddim ac mae hyn yn sylweddol is na chanran sirol a chenedlaethol. Awgryma hyn yn gryf mai ychydig o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi sydd o dan anfantais economaidd. Daw 57% o'r disgyblion o gartrefi lle mai'r Gymraeg yw'r iaith gyntaf. Mae dau blentyn yn dod o dras ethnig.

Derbynia 20% o'r disgyblion gymorth anghenion addysg ychwanegol (ADY). Mae pedwar disgybl ar ddatganiad, 15 disgybl yn derbyn cymorth iaith a 9 o ddisgyblion yn derbyn cymorth rhifedd. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau, dros dro na pharhaol, yn y flwyddyn cyn yr arolygiad nac yn hanes yr ysgol. Mae nifer o newidiadau yn y staff ers yr arolygiad diwethaf yn 2005 gan gynnwys pennaeth a dirprwy newydd. Mae ychydig dros hanner yr athrawon a nifer o gynorthwywyr, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, wedi'u hapwyntio ers hynny.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Twm o'r Nant yw £3,806 sy'n cymharu gydag uchafswm o £18,610 ac isafswm o £2,626 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 32ain uchaf o'r 53 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd (DPC) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (CA2) yn gyson uwch na chanlyniadau'r teulu o ysgolion mae'r ysgol yn perthyn iddi ac yn uwch na chyfartaledd y sir a Chymru;
- bod y canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 ar ddiwedd CA2 yn yr holl bynciau wedi bod yn uwch na'r teulu am y pedair blynedd ddiwethaf;
- bod lefel presenoldeb y disgyblion yn gyson uchel; a
- llwyddiant i feithrin disgyblion sy'n datblygu i ddod yn ddysgwyr annibynnol, dwyieithog a chyfrifol.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon da ar gyfer gwella oherwydd:

- arweinyddiaeth strategol dda iawn y pennaeth, dirprwy a'r llywodraethwyr;
- prosesau rheolaethol clir ac ymarferol sy'n cael eu gweithredu yn gyson ar draws yr ysgol;
- bod yr ysgol yn adnabod ei hun yn dda gan fod y broses hunan arfarnu wedi gwreiddio yn gadarn; a'r
- cydweithio effeithiol iawn o fewn yr ysgol a chyda phartneriaid.

## Argymhellion

Mae'r arolygwyr wedi gwneud yr argymhellion canlynol er mwyn gwella:

- A1 parhau gyda'r strategaethau i wella cyrhaeddiad y bechgyn;
- A2 cynnwys targedau meintiol yn y Cynllun Datblygu Ysgol fel bod yr uwch dim rheoli yn medru monitro gwelliant yn fwy effeithiol;
- A3 datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol a'i alluogi i fonitro gwelliant yn fwy effeithiol; a
- A4 rhannu'r arfer dda yn yr addysgu ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau cysondeb.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen y plant wrth ddechrau yn yr ysgol tros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos bod eu medrau yn is na'r disgwyl. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1 (CA1) maent yn dangos cynnydd da yn eu medrau. Pan fydd y disgyblion yn gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 6 mae'r rhan fwyaf yn dangos cynnydd da iawn yn eu medrau.

Mae cyflawniad mewn dysgu a chynnydd y disgyblion mewn gwersi yn gyffredinol dda ac yn gydnaws â'u hoedran. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion alw i gof dysgu blaenorol gan lwyddo i adeiladu arno yn briodol. Yn gyffredinol mae disgyblion yn cydweithio yn dda ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a osodir ac i'r cwestiynau a holir gan yr athrawon.

Ar draws yr ysgol mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Mae sgiliau darllen a dealltwriaeth a sgiliau trafod a meddwl y disgyblion yn dda yn y ddwy iaith erbyn cyrraedd diwedd CA2.

Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn ysgrifennu yn briodol ac o fewn eu gallu. Mae enghreifftiau o waith ymestynnol effeithiol o fewn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol dau.

Yn 2010 llwyddodd 96% o ddisgyblion CA1 i gyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC), sef cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd y canran hwn yn uwch na chanlyniadau'r teulu o ysgolion mae'r ysgol yn perthyn iddi ac yn uwch na chyfartaledd y sir a Chymru. Mae'r canlyniadau wedi bod yn uwch am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Serch hynny o gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran cinio am ddim mae'r canlyniadau ar gyfer y DPC yn gosod yr ysgol yn 50% isaf o ran perfformiad am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 3, sef lefel yn uwch na'r disgwyl, mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r teulu ond yn is yn y Gymraeg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn 2010 llwyddodd 100% o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 (CA2) i gyflawni'r DPC, sef cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd y canran hwn yn uwch na chanlyniadau'r teulu o ysgolion mae'r ysgol yn perthyn iddi ac yn uwch na chyfartaledd y sir a Chymru. Mae'r canlyniadau wedi bod yn uwch am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran cinio am ddim mae'r canlyniadau ar gyfer y DPC yn gosod yr ysgol yn 25% uchaf o ran perfformiad am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 5, sef lefel yn uwch na'r disgwyl, yn yr holl bynciau wedi bod yn uwch na'r teulu am y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae gwahaniaeth pendant rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r data ar gyfer CA1 yn 2010 yn dangos bod cyrhaeddiad y bechgyn yn is na'r merched ym mhob agwedd o iaith. Y mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn mathemateg a gwyddoniaeth efo'r gwaethaf o fewn y teulu o ysgolion. Yn CA2 mae cyrhaeddiad y merched yn well na bechgyn yn y Gymraeg a Saesneg, yn arbennig felly mewn ysgrifennu. Mae cyrhaeddiad y bechgyn yn uwch na'r merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes tystiolaeth na thueddiad bod disgyblion sy'n cael cinio am ddim yn tangyflawni.

Yn gyffredinol mae disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da tra yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn yr Uned Iaith a Lleferydd yn gwneud cynnydd da iawn ac yn elwa'n sylweddol o gael eu hintegreiddio yn gyson i mewn i'r brif ffrwd.

Erbyn i'r disgyblion gyrraedd diwedd CA2 mae safonau'r Gymraeg yn dda ac mae medrau dwyieithog a gallu'r disgyblion i drawsieithu yn effeithiol iawn. Mae'r cwricwlwm Cymreig yn ganolog i holl fwrlwm gwaith ac ethos yr ysgol ac mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn dda.

### **Lles: Da**

Yn Ysgol Twm o'r Nant mae'r plant yn ymwybodol iawn o ofynion a disgwyliadau bwyta'n iach a magu arferion personol iach. Nodwedd arbennig yw'r amrywiaeth o weithgareddau addysg gorfforol a ffitrwydd y mae'r disgyblion yn amlwg yn eu mwynhau. Mae timau o'r ysgol ac ambell unigolyn dawnus yn cael llwyddiant ar lefel sirol a chenedlaethol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol a bron pob un yn teimlo'n ddiogel yno. Rhai o gryfderau'r ysgol yw cwrteisi, cydweithio ac ymddygiad y disgyblion. Mae datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol pob plentyn yn dda.

Mae cyfraddau presenoldeb y disgyblion yn gyson uchel ac yn uwch na ffigurau'r Sir a Chymru.

Mae'r ysgol a'r plant yn chwarae rhan amlwg ym mywyd a gweithgareddau'r gymuned leol. Maent yn elwa yn fawr o'r cyswllt agos a buddiol gyda nifer o sefydliadau, asiantaethau ac unigolion er mwyn atgyfnerthu eu medrau cymdeithasol a medrau bywyd.

Drwy'r cyngor ysgol, y defnydd o holiaduron a'r bocs syniadau mae'r plant yn mynegi barn a chyfrannu at wneud penderfyniadau yn gyson. Maent yn hynod falch o'r parc antur y bu iddynt gymryd rhan ganolog yn ei sicrhau.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n fanwl trwy'r ysgol ac yn sicrhau gweithgareddau gwerthfawr a chynhwysfawr sy'n cwrdd ag anghenion y disgyblion yn dda. Mae hyn yn gryfder amlwg. Mae'r profiadau sy'n cael eu darparu gan yr athrawon yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu hysgogi i ddysgu. Maent yn sicrhau bod y disgyblion yn rhan o'r broses gynllunio sy'n golygu bod y disgyblion yn dod yn fwy cyfrifol am arwain eu dysgu eu hunain.

Mae'r ddarpariaeth yn rhoi pwyslais da ar ateb anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, darperir gweithgareddau a chefnogaeth effeithiol i rai disgyblion er mwyn hybu eu medrau sylfaenol ac i loywi eu hiaith.

Rhoddir lle blaenllaw yn y cynllunio i ddatblygu y medrau cyfathrebu, rhif, TGCh a meddwl. O ganlyniad caiff y disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau trwy astudiaethau trawsgwricwlaidd gyda phwyslais cryf ar ddatblygu llythrennedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn gyfoethog ac yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da.

Hyrwyddir datblygiad cymdeithasol y disgyblion yn effeithiol a chynigir cyfleoedd pwrpasol iddynt fagu eu hymwybyddiaeth o'u rôl fel dinasyddion byd eang. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd defnyddiol i weithredu mewn modd cynaliadwy. Er enghraifft, trwy gynnal ymgyrchoedd manteision egni adnewyddadwy, arbed ynni ac ail-gylchu. Mae hyn yn ymestyn eu gwybodaeth o faterion gwyrdd yn dda.

Darperir lluo o weithgareddau allgyrsiol buddiol sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion y tu allan i'r ysgol ac yn atgyfnerthu eu sgiliau pynciol a chymdeithasol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda a defnyddiant ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol i gynorthwyo'r dysgu. Yn y gwersi da a gwell, mae athrawon yn defnyddio sbardunau gweledol yn gelfydd i ddal a chynnal diddordeb y disgyblion. Sicrheir cyfleoedd effeithiol ar gyfer datblygu'r prif fedrau dysgu. Mae'r athrawon yn gwneud ymdrech fawr i fodelu patrymau iaith cywir a bwydo'r iaith lafar. Yn y gwersi gorau ym mhen uchaf Cyfnod Allweddol 2 manteisiwyd yn dda iawn ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau trawsieithu. Mae gwaith y staff ategol wrth esbonio gweithgaredd ar flaen y dosbarth a chefnogi grwpiau sy'n cylchdroi yn dda iawn. Yn y gwersi llai effeithiol, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn hollol glir ac mae cyflwyniadau cychwynol ychydig yn hir.

Mae ansawdd yr asesu, adrodd a chofnodi cyflawniad disgyblion yn dda. Derbynia rieni adroddiadau diwedd blwyddyn cynhwysfawr sy'n cwrdd â'r gofynion statudol. Maent yn cyfeirio at fedrau'r disgyblion a'r camau nesaf yn eu datblygiad. Mae'r adroddiadau a gynigir i rieni plant dan saith blwydd oed yn rhagorol. Maent yn



bersonol, clir ac yn hynod fanwl o ran nodi datblygiad y plant o fewn y meysydd a'r camau ar gyfer gwella.

Mae amryw o strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu hymgorffori'n effeithiol yn y gwersi ar draws yr ysgol ac yn rhan annatod o gynllunio'r ysgol gyfan. Mae'r trefniadau ar gyfer safoni ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol a chymedroli ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn drylwyr ac effeithiol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a chynwysol. Mae trefniadau addysg bersonol a chymdeithasol a gweithgareddau megis Diwrnod Lles yn cyfrannu'n effeithiol at les cyffredinol y plant. Mae'r ysgol yn rhan o fenter Ysgolion Iach ac yn hyrwyddo bwyta'n iach a datblygu dulliau iachus o fyw yn dda. Derbyniodd yr ysgol y Marc Actif fel cydnabyddiaeth am ansawdd uchel y ddarpariaeth ar gyfer addysg gorfforol a chadw'n heini. Mae ymrwymiad y staff tuag at gynnig nifer o gyfleoedd allgyrsiol yn nodwedd gref ac mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r ddarpariaeth.

Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Ar draws yr ysgol mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y dysgwyr. O ganlyniad mae rhan weithredol y dysgwyr mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig a chymunedol yn helaeth iawn.

Mae gan yr ysgol berthynas agos a buddiol gyda nifer o asiantaethau allanol sy'n gymorth effeithiol wrth gwrdd ag anghenion y disgyblion. Er enghraifft, gwneir defnydd da o gymorth proffesiynol adran rheoli ymddygiad yr awdurdod lleol.

Darperir cymorth ac arweiniad da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cydymffurfio a threfn y côd ymarfer. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yr uned iaith a lleferydd yn dda iawn a chynhwysir y disgyblion mewn nifer o weithgareddau ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion yn gynnwys trwy arsylwi cyson; cyd-drafod fel staff; trafod gyda rhieni a chynnal asesiadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r cydlynnydd ADY yn olrhain canlyniadau profion safonol ac yn dewis y rhaglenni cefnogi fwyaf addas ar gyfer y disgyblion. Mae'r athrawon dosbarth yn ymwybodol o anghenion unigolion, gan gynnwys y disgyblion sy'n fwy galluog, o fewn eu dosbarthiadau ac, ar y cyfan, yn cynllunio'n briodol ar eu cyfer.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos, ofalgar a hapus. Mae'r staff yn ystyried ac yn gwerthfawrogi anghenion amrywiol y disgyblion yn dda ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl i fanteisio ar amrediad llawn y ddarpariaeth addysgol. Maent yn meithrin agweddau cadarnhaol ymhlith disgyblion tuag at faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r adeilad yn cael ei gynnal yn dda ac mae yna amgylchedd dysgu ysgogol i'r disgyblion. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn darparu gofod dysgu pwrpasol. Drwy'r ysgol, mae arddangosfeydd lliwgar yn hybu a chyfoethogi dysgu disgyblion. Mae neuadd yr ysgol yn fach ar gyfer y nifer disgyblion ond sicrhau'r staff nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar waith yr ysgol nac ar y safonau.

Gwneir defnydd effeithiol iawn o ystod o adnoddau o ansawdd da i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae yna gyfleusterau cyfoethog ar gyfer cyfrannu at brofiadau allanol plant y Cyfnod Sylfaen ac yn yr ystafell gyfrifiadurol.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweiniad strategol y pennaeth a'r dirprwy yn dda iawn. Cyflawna'r uwch dîm rheoli a sefydlwyd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon ei ddyletswyddau yn llwyddiannus iawn ac mae wedi dechrau cyflawni ei rôl herio er mwyn gwella ansawdd yn dda. Mae wedi datblygu gweledigaeth gytûn gyda phob aelod staff yn cyd-dynnu a chyd-weithio yn dda iawn er budd y disgyblion.

Mae trefniadaeth a systemau rheolaethol o ddydd i ddydd yn rhagorol. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod prosesau clir ac ymarferol yn eu lle sy'n cael eu gweithredu yn gyson ar draws yr ysgol gan bob aelod staff. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd effeithiol mae'r ysgol yn sicrhau atebolrwydd o ran gweithdrefnau diogelu plant.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rôl strategol yn effeithiol. Mae'r aelodau yn ymweld â dosbarthiadau ac yn derbyn adroddiadau am gryfderau ac ardaloedd i'w gwella. Mae'r corff hefyd yn derbyn dadansoddiadau data gan y pennaeth am berfformiad disgyblion. Nid yw ei rôl i herio'r data a deall ei gyd-destun fel ffrind beirniadol wedi datblygu'n llawn hyd yn hyn.

Mae'r ysgol yn gweithredu yn llwyddiannus nifer helaeth o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol er budd y disgyblion. Er enghraifft, hyrwyddo lles staff, masnach deg, datblygu'r cynllunio i roi sylw da i'r medrau allweddol, ffitrwydd disgyblion a datblygu cymunedau dysgu proffesiynol. Mae'r pwyllgor lles, sy'n gyfrifol am drefnu digwyddiadau sy'n hyrwyddo lles staff, yn llwyddiannus iawn a'r gweithgareddau wedi arwain at gynorthwyo i greu gweithlu unol sy'n ymroddedig i ddarparu y gorau i'r disgyblion.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses o arfarnu safonau'r dysgwyr, ansawdd yr addysgu a'r defnydd o adnoddau yn gadarn. Mae hyn yn darparu gwybodaeth uniongyrchol sy'n cyfrannu yn effeithiol at y broses o hunan arfarnu'r ysgol. Mae'r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i adnabod blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi pa strategaethau sy'n weithredol gogyfer a chodi safonau yn ogystal â manylu ar yr adnoddau a'r dulliau monitro. Cynhwysa'r

cynlluniau amserlen sy'n gosod trefn ar beth sy'n cael ei fonitro a phryd, gan gynnwys adolygu polisïau a monitro pynciol. Mae'r cynllun wedi ei strwythuro yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi yn glir y meini prawf llwyddiant yn nhermau targedau meintiol ac o ganlyniad nid oes modd sicrhau atebolrwydd effeithiol ar gyfer y gweithredu. Yn ogystal, nid yw'n glir o ble daw'r ffynonellau ariannol i gyllido'r gweithredu.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda fel cymuned sy'n dysgu. Yn yr arfer orau maent yn rhannu medrau proffesiynol trwy arsylwi ar arferion da yn nosbarthiadau ei gilydd a chefnogi a mentora yn ôl yr angen. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn datblygu'n dda iawn.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n dda iawn at ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni a'r gymuned yn ardderchog. Darpara'r ysgol ystod dda iawn o wybodaeth i rieni. Er enghraifft, mae rhieni yn derbyn adroddiadau hanner blwyddyn ar gynnydd eu plant. Mae hwn yn arf effeithiol iawn i gryfhau y bartneriaeth rhwng cartref ac ysgol ac ymglymu'r rhieni yn y broses o gynnal safonau. I adeiladu ar hyn fe drefnwyd sesiwn lwyddiannus yn esbonio sut mae'r ysgol yn datblygu ysgrifennu'r disgyblion. Cynhyrchir yn ogystal lyfryn ar ddiwedd tymor yr haf sy'n rhannu ac yn dathlu gweithgareddau'r flwyddyn.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i nifer o ysgolion yr ardal ar faterion yn ymwneud â chynllunio, rheoli perfformiad, rheoli data a threfniadaeth amddiffyn plant. Gwna yr awdurdod lleol ddefnydd helaeth o arbenigedd yr uwch dîm rheoli a'r staff i rannu arfer dda ar draws y sir ac arwain Cymunedau Dysgu Proffesiynol. Mae ansawdd eu cyfraniadau yn rhagorol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol iawn gydag ysgolion yr ardal. Mae wedi chwarae rôl flaengar wrth hyrwyddo gwelliannau yn y ddarpariaeth ac o ran llunio a rhannu cynlluniau a strategaethau gydag ysgolion cymraeg Sir Ddinbych. Mae'r cysylltiadau hyn wedi cael effaith dda iawn ar ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda a chaiff gwariant ei fonitro'n rheolaidd ac yn briodol. Mae ystod dda o adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu ac mae digon o athrawon a chymorthyddion i gwrdd ag anghenion y disgyblion.

Mae defnydd effeithiol o arbenigeddau staff yn dylanwadu yn dda ar amrediad y profiadau a gynigir i ddisgyblion. Mae'r athrawon yn cydweithio yn dda gyda'r cymorthyddion dosbarth sy'n cyflawni eu rôl yn effeithiol.

Mae cyllid yn cael ei ddefnyddio yn briodol ar gyfer diwallu'r blaenoriaethau a adnabyddir yng nghynllun datblygu'r ysgol. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. O ystyried y cynnydd arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf a deilliannau da bron pob un o'r dysgwyr mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd 101 o ymatebion gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ac roeddynt yn unfrydol:

- bod yr ysgol yn eu dysgu i sut i aros yn iach;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae bron pob un yn:

- teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- gwybod â phwy i siarad os yn poeni neu ofidio am rhywbeth;
- credu bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff rheolaidd yn yr ysgol; ac yn
- nodi bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae ychydig iawn yn credu nad:

- yw'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- yw'r gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; ac nad
- yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae ychydig yn credu nad:

- yw plant eraill yn ymddwyn yn dda ac felly yn eu rhwystro rhag gweithio; ac nad ydynt yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd 41 o ymatebion i'r holiaduron gan rieni ac roeddynt yn unfrydol:

- bod eu plant yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda pan yn dechrau yn yr ysgol; ac
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae bron pob un yn:

- credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- nodi bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel;
- credu fod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;

- nodi bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

Mae y rhan fwyaf yn credu bod:

- yr addysgu'n dda a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- y staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed, i wneud ei orau a'u bod yn trin pob plentyn yn deg a chyda pharch; a
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Mae ychydig yn credu nad:

- ydynt yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- yw disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion;
- ydynt yn gwybod os yw eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; nac
- os yw eu plentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

Maldwyn Pryse	Arolygydd Cofnodol
Clive Phillips	Arolygydd Tîm
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Emma Rofe	Arolygydd Cymheiriaid
Geraint Davies	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11